# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU DYDD IAU, 19 TACHWEDD 2020

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Stephen W. Churchman, Councillor Goronwy Owen Edwards, Aled Ll. Evans, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, John Pughe Roberts a Ioan Thomas

**SWYDDOGION:** Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu), Delyth Jones Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys) a Meirion Jones (Pensions Manager)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn gadeirydd am y cyfarfod.**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Robin Williams (Cyngor Ynys Môn), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) a Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN 2019/20**

a) Nodyn gan y Cadeirydd – y Cynghorydd Peredur Jenkins

Croesawyd pawb i gyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn.

Diolchwyd i'r Cynghorydd John Pughe Roberts am ei wasanaeth ffyddlon yn cadeirio'r Pwyllgor Pensiynau am y 2 flynedd diwethaf. Nodwyd y byddai'r cyn-gadeirydd yn edrych yn ôl ar gyfnod datblygol a llewyrchus i'r Gronfa, pryd roedd yn chwarae rhan ddylanwadol ar ran Gwynedd fel aelod o Gydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru.

b) Nodyn gan Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn (2019/20) - Mr Osian Richards

Cyfeiriwyd at adroddiad blynyddol Bwrdd Pensiwn y Gronfa oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ynghyd a phrif swyddogaethau'r Bwrdd fel corff sydd yn monitro ac adolygu penderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau a gwaith yr Uned Weinyddu. Mynegodd bod perthynas dda rhwng y Bwrdd a bod y Bwrdd wedi cynorthwyo a chyfrannu at lwyddiant y Gronfa.

c) Cyflwyniad y Pennaeth Cyllid Adroddiad Blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2019/20

Mynegodd bod 2019/20 wedi bod yn flwyddyn heriol iawn gyda'r Gronfa wedi llwyddo i gyflawni dychweliadau cadarnhaol, ond bod effaith covid-19 i'w weld ar werth y Gronfa ar ddiwedd Mawrth 2020. Adroddwyd mai gwerth y Gronfa 31/03/2020 oedd £1,938.3 miliwn o gymharu â gwerth 31/03/2019 o £2,081.3 miliwn. Er hynny, braf oedd adrodd bod y gwerthoedd, ers diwedd y flwyddyn ariannol, wedi bownsio nôl, gyda gwerthoedd ecwiti byd eang yn parhau i gynyddu. Adroddwyd bod gwerth y Gronfa ar 30/06/20 yn £2,162.1 miliwn ac erbyn 30/09/20 yn £2,217.7 miliwn.

Cyhoeddodd cwmni Pfizer frechlyn a oedd yn 90% effeithiol ar y 9fed o Dachwedd ac mewn ymateb gwelwyd y marchnadoedd gynnydd o tua 7%. Amlygwyd mai dyma'r wythnos gryfaf ers Ebrill 2020, ond gyda chwymp cymharol ar y Dydd Gwener canlynol wrth i fuddsoddwyr ystyried y byddai'n cymryd peth amser i'r brechlyn cael ei ddosbarthu ac i'r economi adfer yn llwyr. Ategwyd bod y Gronfa o ran perfformiad yn gwneud yn dda iawn a hynny oherwydd penderfyniadau doeth y Pwyllgor a'r Rheolwyr Buddsoddi sydd yn gweithio ar ein rhan.

Yng nghyd-destun Partneriaeth Pensiwn Gwynedd adroddwyd bod y cydweithio yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 gyda swyddogion yn cwrdd yn aml. Ers y cyfnod clo, adroddwyd bod holl ddigwyddiadau'r bartneriaeth wedi bod yn rhithiol ond y gwaith wedi parhau gyda chronfeydd newydd wedi ei lansio, a nifer o ddigwyddiadau wedi cymryd lle. Atgoffwyd yr aelodau o'r holl Reolwyr sydd yn cefnogi'r Gronfa ynghyd a'r buddion sydd wedi eu hennill o fod wedi ymuno, sydd yn cynnwys ehangu ein cyfleodd buddsoddi drwy ehangu'r nifer o reolwyr buddsoddi sydd yn ein portffolio, a lleihad mewn ffioedd. Adroddwyd, yn ystod Gorffennaf a Hydref 2020 crëwyd pum cronfa Incwm Sefydlog gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, gyda Chronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn dau ohonynt: Cronfa Multi Asset Credit (trosglwyddwyd £166 miliwn yng Ngorffennaf 2020) a'r Gronfa Absolute Return Bond (trosglwyddwyd £291 miliwn yn Hydref 2020). Cadarnhawyd mai'r trosglwyddiad nesaf a fydd yn digwydd bydd Marchnadoedd Datblygol yn Haf 2021.

Yng nghyd-destun materion anariannol a'r dyletswydd i fuddsoddi yn gyfrifol yn

destun blaenoriaeth gan y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiynau, cytunwyd yng Ngorffennaf 2019 i symud 12% o gyfanswm y gronfa i Gronfa Carbon Isel Black Rock gan leihau amlygiad carbon o hyd at 80%, gyda'r trosglwyddiad yn cael ei weithredu yn Medi 2020. Nodwyd, trwy olrhain Mynegai Carbon Isel MSCI, byddai BlackRock a Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn cwmnïau fydd ag allyriadau carbon isel, tra hefyd yn sicrhau dychweliadau ariannol cyffelyb i'r Mynegai Byd-eang safonol ynghyd a bodloni'r ddyletswydd ymddiriedol i staff, pensiynwyr a chyflogwyr y cynllun. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid bod Cronfa bellach gan Black Rock bellach ar gael, a cytunodd y Pwyllgor Pensiynau ar 14 Hydref, 2020 i symud i'r gronfa yma. Manteision y gronfa newydd yma yw y gellir lleihau carbon 44% ymhellach drwy sgrinio cyn yr optimeiddio carbon isel. Yn ychwanegol, yn Hydref 2020, derbyniodd y Panel Buddsoddi gyflwyniad gan Baillie Gifford ar ei cronfa Global Alpha Paris- Aligned a fyddai yn ffurfio rhan o Gronfa PPC Global Growth Fund. Byddai'r gronfa yn sgrinio allan echdynwyr tanwydd ffosil a darparwyr gwasanaeth tanwydd ffosil.

Gweinyddiaeth Pensiynau:

Yn ystod 2019/20 adroddwyd bod gwaith wedi ei wneud i uwchraddio gwefan Hunan Wasanaeth Aelodau. Lansiwyd y safle ddiwedd Ionawr 2020 a mynegwyd bod y wefan newydd yn rhoi gwell profiad ar-lein i'r aelodau, gyda rhyngwyneb sy'n edrych yn fwy deniadol ac yn haws i'w ddefnyddio.

Adroddwyd ar 31/03/2020 y canrannau o aelodau oedd wedi ymaelodi a'r gwasanaeth hunan wasanaeth - Aelodau actif: 60%, Aelodau gohiriedig: 38% a Phensiynwyr: 11%. Ategwyd bod gwaith yn parhau i geisio cynyddu'r aelodaeth.

Amlygwyd pwysigrwydd pob cyflogwr i gyflwyno data i'r cynllun pensiwn yn rheolaidd gyda system i-Connect yn diweddaru data tâl a chyfraniadau ar y system yn fisol. Ategwyd bod i-Connect yn darparu buddion sylweddol i aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) drwy gyflwyno data clir, cywir ac amserol. Diolchwyd i'r holl gyflogwyr am drosglwyddo i system i-connect.

Tynnwyd sylw at Arolwg Boddhad Aelodau sydd yn cael ei anfon allan i holl aelodau'r Gronfa ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau a thalu ad-daliadau. Y bwriad yw derbyn barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd ynghyd a barn am y gwasanaeth a ddarperir gan staff yr adran. Defnyddir yr adborth i sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei gynnig i'r Aelodau. Adroddwyd bod dros 98% o aelodau unai yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel ac 98.16% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel mewn perthynas â staff yr adran. Er mwyn cyflawni'r sgoriau uchel hyn, nodwyd bod cydweithrediad y cyflogwyr yn hanfodol a diolchwyd i'r cyflogwyr am ei parodrwydd i ddarparu'r wybodaeth yn brydlon i'r Gweinyddwyr.

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod 2019/20.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thaliadau staff ar ffyrlo ac, os yr oeddynt ar eu colled, nodwyd bod y sefyllfa yn ddibynnol ar y cyflogwr yn talu'r 20% ychwanegol. Awgrymwyd bod y cwmnïau mwyaf yn fwy tebygol o dalu'r ychwanegiad hyn ac o ganlyniad ni fyddai effaith ar eu pensiwn.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau pwlio, amlygwyd bod manteision maint o gyfuno wedi bod yn fuddiol ac o ganlyniad wedi gyrru'r ffioedd i lawr o tua 12%. Tynnwyd sylw at debygolrwydd effaith Brexit gan

nodi y byddai risg debygol i fuddsoddiadau eiddo Prydeinig ond yng nghyd-destun buddsoddiadau ecwiti, nodwyd mai oddeutu 6% yn unig oedd yn Brydeinig ac felly'r risg yn llai. Ategwyd bod swmp o'r buddsoddiadau yn fyd eang ac felly yn cael llai o effaith ar ecwiti.

- Gwnaed sylw bod yr adferiad ar ôl cwymp mis Mawrth o ganlyniad i covid-19 wedi bod yn syndod ac yn dystiolaeth o'r penderfyniadau da sydd wedi ei gwneud mewn buddsoddiadau amrywiol. Pwysleisiwyd yr angen i barhau gyda'r' meddylfryd yma a bod angen croesawu'r cyfleoedd o fod yn rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Diolchwyd i holl staff y Gronfa am gyflawni eu gwaith a'u dyletswyddau yn broffesiynol iawn o dan amgylchiadau anghyffredin. Diolchwyd i Aelodau'r Pwyllgor ac i Aelodau'r Bwrdd am eu rheolaeth dros lwyddiant y Gronfa.

**PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 20119/20**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.50 y.b.

**CADEIRYDD**